

Elin Jones AC
Y Llywydd

18 Ebrill 2018

Annwyl Lywydd

Adnoddau ar gyfer craffu o ran Brexit

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mawrth, lle y gofynnwch i'r Pwyllgor nodi'r graddau y mae ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn debygol o effeithio ar ein gwaith, ac a yw hyn yn creu unrhyw broblemau o ran amserlennu a gallu.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar y dull gweithredu a ganlyn o ran materion yn ymwneud ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd:

Sganio gorwel – Mae'r Pwyllgor yn cael diweddariadau rheolaidd ar Brexit. Mae mewnbwn rheolaidd gan randdeiliaid hefyd yn cynorthwyo'r Pwyllgor i nodi meysydd y mae'n dymuno canolbwyntio arnynt.

Blaenoriaethu a ffocws – Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylai ei flaenraglen waith fod yn hyblyg i ymateb i faterion sy'n ymwneud ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys deddfwriaeth. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar ei raglen waith ar gyfer tymor yr haf sy'n adlewyrchu ei ffocws yn hyn o beth.

Datblygu perthnasoedd – Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu perthynas â Phwyllgorau cyfatebol mewn deddfwrfeydd eraill, i rannu gwybodaeth ac arferion



da. Cyfarfu'r Aelodau â'r Pwyllgor Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir ac â Chynullydd y Pwyllgor Economi Gwledig a Chysylltedd yn Senedd yr Alban. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ymweld â Phwyllgorau tebyg yn San Steffan yn ystod tymor yr haf, yn amodol ar gytundeb gan y Pwyllgor Busnes.

O ran effaith debygol y gwaith sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i flaenoriaethu'r materion canlynol yn ystod tymor yr haf:

- Llywodraethu Amgylcheddol – *byddwn yn ystyried llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol a'r angen am gorff diogelu'r amgylchedd domestig.*
- Cynigion ar gyfer fframweithiau'r DU – *byddwn yn ymgymryd â gwaith ar fframweithiau cyffredin y DU a allai fod angen eu sefydlu ar gyfer materion datganoledig sy'n cael eu llywodraethu ar hyn o bryd gan gyfraith yr UE.*
- Pysgodfeydd – *byddwn yn ystyried y trefniadau ar gyfer y diwydiant pysgodfeydd yng Nghymru yn y dyfodol, gyda'r bwriad o lywio ein hystyriaeth o ddeddfwriaeth yn y dyfodol ar y mater hwn.*

Byddwn hefyd yn ymateb i ymgynghoriad Defra ynghylch polisi a deddfwriaeth amaethyddol yn y dyfodol – "Health and Harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit". Mae ein hymateb wedi'i lunio ar sail yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017, 'Dyfodol rheoli tir yng Nghymru'.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd y materion hyn yn cael blaenoriaeth dros waith arall a drefnwyd. Mae gweithgareddau eraill wedi cael eu symud, ond gellir eu cynnwys yn ein rhaglen waith heb effaith niweidiol ar ein gallu i gyflawni ein cylch gorchwyl. Rydym yn hyderus y gellir cyflawni'r gwaith ar Brexit o fewn ein hadnoddau presennol, gan gynnwys o fewn yr amser a neilltuwyd ar gyfer y Pwyllgor ac o ran adnoddau Aelodau a staffio.

Mae'r Pwyllgor yn disgwyl y bydd cryn dipyn o is-ddeddfwriaeth sy'n deillio yn sgîl ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys y Bil Amaethyddiaeth a'r Bil



Pysgodfeydd arfaethedig, yn dod o fewn ei gylch gorchwyl. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am y gweithdrefnau y bydd y Pwyllgor Busnes yn eu cyflwyno i alluogi pwyllgorau'r Cynulliad i graffu ar is-ddeddfwriaeth sy'n deillio yn sgîl Brexit.

Wrth inni gynnal ein gwaith craffu ar bolisi a deddfwriaeth, byddwn yn parhau i ddiweddarau ein cydweithwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i sicrhau ein bod yn cynllunio ein gwaith mor effeithiol ag y gallwn. Rwyf wedi copïo'r llythyr hwn at Gadeiryddion y ddau Bwyllgor er gwybodaeth.

Os bydd y sefyllfa'n newid o ran effaith y gwaith hwn ar ein hadnoddau, byddaf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi.

Yn gywir,



Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

